

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Morfudd Roberts (Llanefydd) ganol yr wythnos. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Bethan, David, Trebor, Tomos, a'r teulu i gyd, a diolchwn am eu gofal ohoni, yn arbennig felly dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod dros y teulu mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Anfonwn ein cofion at Beryl Jones (Nantglyn) sydd bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Kitty Parry (Llanefydd). Cafodd Mair Jones (Nantglyn), Falmai Evans (Saron) a Heddwyn Davies (Llansannan) ddod adre o'r ysbyty, fel ag y cafodd Eluned Roberts (Llanefydd) yn dilyn llawdriniaeth ynno ddechrau'r wythnos. Mae eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd. Cofiw'n amdanynt oll a chyflwynwn hwy i ofal tyner ein Duw.

## Profiad Gwaith

Bydd Gwilym Tudur, sy'n byw yng Nghaerdydd ac yn fyfyrwr gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Aberystwyth, yn dod i dreulio pythefnos o brofiad gwaith hefo ni ym Mro Aled rhwng Mehefin 15–19 a Gorffennaf 5–10. Edrychwn ymlaen i'w groesawu atom ac i roi profiadau newydd iddo. Dwi'n siwr y byddwn ninnau'n elwa o'i brofiad yntau.

## Sul y Fro – Canolfan Mari Jones, Llanycil

Os ydach chi am ymuno â ni i ymweld â Chanolfan Byd Mari Jones dydd Sul, Mehefin 28ain (Sul y Fro), wnewch chi roi eich enw i Ysgrifennydd eich eglwys **erbyn dydd Sul, Mehefin 21ain fan bellaf**, os gwelwch yn dda? (*Ysgrifenyddion: wnewch chi anfon y niferoedd ymlaen i Mair y nos Sul hwnnw, os gwelwch yn dda?*) Mae'r Ganolfan angen gwybod ymlaen llaw y nifer fydd yn mynd yno. Pris mynediad – Oedolion: £3.00; Plant 5–16 oed: £2.50; Plant iau na 5 oed: am ddim.

## I ddod

- **ADNABOD CYMDEITHASOL** – Taith gerdded hamddenol nos Fercher, Mehefin 24ain. Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.
- Cynhelir y **CWRDD CHWARTER** nesaf nos lau, Mehefin 25ain am 6.45 yn festri Capel Lôn Swan, Dinbych pryd y bydd y Parch. Casi Jones (Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Undeb) yn arwain sesiwn: *'Mentro ar Daith'*.
- **SUL Y FRO** – dydd Sul, Mehefin 28ain yng nghwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala. **“i-Grist”** – oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan am 10.30. Yna, yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Ganolfan Byd Mari Jones yn Llanycil i gael picnic a chyfle i gymdeithasu, cyn cael tro o gwmpas y Ganolfan. Yna, bydd Joseff Edwards yn arwain **“Oedfa o Fawl”** a bydd darpariaeth i'r plant yng Ngholeg y Bala am 3.00 cyn troi am adre. Croeso i bawb!



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14<sup>eg</sup> Mehefin 2015

## Darlleniad y Dydd

Mathew 7:15-20

(BCND tud.7 / BCN: tud.7)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw. Ffydd ar waith – dyna oedd thema'r gwasanaeth nos Sul o bennod 11 yn y llythyr at yr Hebreaid ac fe fyddwn yn edrych ar hanes rhai o'r Barnwyr dros yr wythnosau nesaf yn yr oedfaon nos Sul, os Duw a'i myn. Gallwch ddilyn hefyd os na fyddwch wedi medru dod i'r oedfaon – mae'r pregethau i'w clywed ar ein safle we – [eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com) – ac mae hanes Gideon, Debora, Barac, Jeffta, Samson a'r lleill yn llawn yn Llyfr y Barnwyr yn yr Hen Destament. Gallwch ddarllen yr hanesion mewn Cymraeg cyfoes wrth fynd i wefan 'beibl.net' a gobeithio y cewch chi flas a bendith ar y gwranddo a'r darllen.

Yr hyn sy'n gwneud ffydd y bobl yma – a phob Cristion – yn rhyfeddol yw ein bod yn credu yn yr anweledig. “Ffydd ydy'r sicrwydd fod beth dŷn ni'n gobeithio amdano yn mynd i ddigwydd. Mae'n dystiolaeth sicr o realiti beth dŷn ni ddim eto'n ei weld” ydi'r diffiniad ar ddechrau'r bennod. (Hebreaid 11:1)

Mae credu mewn Duw anweledig a'i eiriau yn ymddangos yn beth ffôl a dieithr i lawer o bobl. Ond byrdwn y Beibl i gyd ydi fod Duw yn dangos ei hun i ni mewn amrywiol ffyrdd ac yn llawn ym mherson Iesu. Dyma'r Un sy'n dangos Duw yn llawn i ni – ond dydan ni ddim yn ei weld o rŵan chwaith! Felly, y cwestiwn sy'n codi'n naturiol wedyn ydi sut mae dangos fod gennym ffydd os ydi pob peth ynglŷn â'n ffydd mor anweledig? Yn y darlleniad heddiw mae Iesu'n rhoi yr ateb.

Mae ein ffydd ni yn yr anweledig yn cael ei wneud yn amlwg i bobl eraill trwy ein gweithredoedd – y “ffrwythau” sy'n dod ar goeden ein bywyd sy'n dangos beth ydi cyflwr ein calonnau. Bydd calon dda, meddai Iesu, yn dwyn ffrwyth da: “Felly lle mae ffrwyth da mae coeden iach, ond os ydy'r ffrwyth yn ddrwg, mae'r goeden yn wael. Dydy ffrwyth drwg ddim yn tyfu ar goeden iach, na ffrwyth da ar goeden wael!” Calon ffyddiog Abel ddaru beri iddo ddod ag aberth gerbron Duw a oedd yn dderbyniol gan Dduw. (Hebreaid 11:4) Calon ffyddiog o'n heiddo ni, calon sy'n dwyn tystiolaeth i'r hyn a gawsom trwy ras Duw – ffydd, gobaith a chariad yng Nghrist fydd yn plesio Duw heddiw wrth i ni gyd-addoli mewn gair a gweithred.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

*Aneurin*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Barnwyr 2:1-5 (BCND tud.222 / BCN: tud.202)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Bydd hon yn Gymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2014-15. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llun – 15<sup>fed</sup>

- **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. “*Would God forgive a Terrorist?*” gyda Billy McCurrie, fu'n aelod o'r UVF yng Ngogledd Iwerddon ac a gafodd garchar am oes pan ond yn 17 oed. Dewch i glywed ei stori am sut y trawsnewidiodd Duw ei fywyd. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i bawb.

Mawrth – 16<sup>eg</sup>

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Gwener – 19<sup>eg</sup>

- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) yn Llansannan am 7.30.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Cynhelir 'WEDI'R OEDFA' yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni Côr Bodwrog, Ynys Môn. Croeso i bawb.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00 a bydd Edward ac Anwen yn cyflwyno Gwilym Elwy i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa bydd Nansi Grace, merch fach Darryl a Helen yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

### Henllan a Groes

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00. Ar ôl y gwasanaeth, bydd yr aelodau'n mynd ar bererindod ac yn cael cinio yn yr Eagles, Llanuwchllyn, cyn mynd ymlaen i Ganolfan Byd Mari Jones. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yno am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 14<sup>eg</sup>

Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.

Gwener – 19<sup>eg</sup>

Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mehefin 14eg**, os gwelwch yn dda.

Sul nesaf – 21<sup>ain</sup>

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.